Adran Gwaith a Phensiynau

# Ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad Annibynnol o weithrediad sancsiynau Lwfans Ceisio Gwaith a ddilyswyd gan Ddeddf Ceiswyr Gwaith 2013

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau drwy Orchymyn Ei Mawrhydi
Gorffennaf 2014

**© Hawlfraint y Goron 2014**

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.2. I weld y drwydded hon ewch i **www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/** neu e-bostiwch **PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk**. Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatâd y deiliad hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/government/publications/jobseekersallowance-sanctions-independent-review-government-response**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn
**JSA Sanctions Independent Review Team**
**Department for Work and Pensions**
**1st floor**
**Caxton House**
**Tothill Street**
**London SW1H 9NA**

**E-bost: sanctions.review2013@dwp.gsi.gov.uk**

Gwe ISBN 978-1-78425-299-1

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 25061415 07/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

# Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Gyflogaeth 3

Pennod 1 **Cefndir a chyd-destun** 4

## Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Gyflogaeth

Bu hawliau a chyfrifoldebau yn nodwedd barhaus ar ein system budd-daliadau a gellir eu holrhain i Adroddiad Beveridge yn 1942. Credaf ei bod yn briodol, os na fydd hawlydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau, y caiff budd-daliadau eu cadw'n ôl neu eu hatal.

Ond credaf hefyd mai dim ond pan fo'n briodol gwneud hynny y dylid defnyddio sancsiynau – pan fydd yr hawlydd wedi methu â bodloni gofyniad rhesymol heb reswm da.

Rwy'n benderfynol o adolygu a gwella'r system yn barhaus er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Yn y cyd-destun hwn y croesawaf adolygiad Matthew Oakley. Mae tîm yr adolygiad wedi edrych yn fanwl ar brosesau a gohebiaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau (yr Adran) sy'n ymwneud â sancsiynau.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y system bresennol yn gweithredu'n dda ar y cyfan, ond mae'n cyfaddef, mewn gweithrediad o'r maint hwn, ei bod bron yn anochel bod meysydd i'w gwella. Yn unol â hyn, er bod Matthew Oakley wedi gwneud amrywiaeth eang o argymhellion, mae hefyd wedi nodi bod yr Adran eisoes yn gwneud gwelliannau i'r system.

Croesawaf ganfyddiadau'r adolygiad. Rwyf wedi dweud bob amser fy mod yn bwriadu ymateb yn gadarnhaol ac mae'r ymateb hwn yn nodi'n glir y bydd y Llywodraeth yn derbyn pob un o'r argymhellion.

Drwy weithredu'r argymhellion hyn byddwn yn ychwanegu at raglen o waith sydd eisoes yn mynd rhagddi er mwyn gwella ein system sancsiynau. Gyda'i gilydd credaf y bydd y newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr, ond byddaf yn parhau i adolygu'r system yn rheolaidd a cheisio rhagor o gyfleoedd i wneud gwelliannau.



**Esther McVey AS**
Y Gweinidog Gwladol dros Gyflogaeth

# Cefndir a chyd-destun 1

## 1. Lwfans Ceisio Gwaith a sancsiynau

Mae Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) yn rhoi cymorth ariannol i unigolion tra'u bod yn chwilio am waith. Drwy'r Ganolfan Byd Gwaith a rhaglenni eraill, mae'r Llywodraeth yn buddsoddi adnoddau sylweddol er mwyn helpu hawlwyr i symud i mewn i gyflogaeth mor gyflym â phosibl. Mae hyn yn cynnwys cynnig cymorth ymgynghorwyr, hyfforddiant, profiad gwaith a lleoliadau gwaith.

Yn gyfnewid am daliadau budd-dal a'r cymorth hwn, mae'n rhaid i hawlwyr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod ganddynt y cyfle gorau o gael gwaith. At hynny, mae'n rhaid iddynt fodloni gofynion gorfodol penodol a nodir gan eu hymgynghorydd y bwriedir iddynt eu helpu i mewn i waith. Os na fyddant yn eu bodloni - ac nad oes ganddynt reswm da dros wneud hynny - bydd eu budd-daliadau yn destun sancsiynau h.y. cânt eu hatal yn gyfan gwbl neu eu lleihau am gyfnod o amser.

Cred y Llywodraeth yn gryf fod y system hon yn briodol a bod sancsiynau yn rhan hanfodol o JSA (a hynny ers i'r budd-dal gael ei gyflwyno yn 1996). Nod sancsiynau yw cymell hawlwyr i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn dod o hyd i waith a sicrhau bod y system yn deg i'r trethdalwr. Mae cyfundrefn JSA, sy'n cynnwys sancsiynau, yn effeithiol iawn wrth symud pobl oddi ar JSA ac i mewn i waith – mae tua dau o bob tri hawlydd Lwfans Ceisio Gwaith yn rhoi'r gorau i hawlio JSA am eu bod yn dod o hyd i gyflogaeth â thâl[1]. Daw dros hanner yr hawliadau JSA newydd i ben o fewn tri mis, tri chwarter o fewn chwe mis a 90 y cant o fewn blwyddyn. Dywed 72 y cant o hawlwyr eu bod yn fwy tebygol o ddilyn y rheolau am y gellir gosod sancsiynau arnynt[2].

1 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/214578/rrep791.pdf
2 tud157: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/261656/rrep852.pdf

Ers 2010, mae'r Llywodraeth hon wedi gwneud nifer o newidiadau arwyddocaol i'r ffordd y mae system JSA yn gweithredu. Dau faes sy'n arbennig o berthnasol yn hyn o beth yw:

- y disgwyliadau uwch ar hawlwyr JSA. Mae Deddf Ceiswyr Gwaith 1995 (y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n rheoli JSA) yn nodi'n glir, er mwyn bod yn gymwys i gael y budd-dal, fod yn rhaid i hawlydd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod ganddo'r cyfle gorau o gael gwaith. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith wedi atgyfnerthu ei dull o sicrhau bod hawlwyr yn bodloni'r amod hawlio hwn. Drwy'r Rhaglen Waith a chynllun 'Help to Work' mae'r Llywodraeth wedi rhoi trefniadau ar waith er mwyn ymgysylltu'n fwy penodol â phobl sy'n ddi-waith ers cyfnod hir ac, yn gyffredinol, mae wedi sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei monitro'n fwy trylwyr nag y mae wedi'i monitro yn y gorffennol.
- Newidiadau i'r system sancsiynau. O ddiwedd mis Hydref 2012 cyflwynwyd strwythur newydd ar gyfer sancsiynau. Nod y system newydd yw rhoi gwell cymhelliant i hawlwyr gydymffurfio drwy ddarparu canlyniadau cliriach a llymach (yn arbennig ar gyfer hawlwyr sy'n methu â chyflawni eu cyfrifoldebau dro ar ôl tro, ac ar gyfer y gofynion pwysicaf megis peidio â derbyn swydd addas a gynigir iddynt).

## 2. Lefelau sancsiynau

Mae'r Llywodraeth yn monitro ac yn cyhoeddi ystadegau manwl ar y defnydd o sancsiynau JSA bob chwarter. Mae'r cyhoeddiad mwyaf diweddar (Mai 2014) yn rhoi gwybodaeth am sancsiynau hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2013. Ers dechrau 2010, bu nifer y sancsiynau yn cynyddu, yn ogystal â sancsiynau fel cyfran o lwyth gwaith JSA. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir nad yw'r mwyafrif llethol o hawlwyr JSA yn cael sancsiwn (yn 2013, ar gyfartaledd, arweiniodd pump y cant o hawliadau JSA at sancsiwn mewn unrhyw fis).

Mae'n amlwg bod y cynnydd yn y ddau achos uchod i'w briodoli i gynnydd yn nifer y sancsiynau a osodir ar hawlwyr sydd wedi methu â chymryd pob cam rhesymol i ddod o hyd i waith a'r rhai sydd wedi methu â chymryd rhan yn y Rhaglen Waith – hawlwyr y mae angen mwy o gymorth ac anogaeth arnynt, ar y cyfan, i symud i mewn i waith.

## 3. Sicrhau y caiff sancsiynau eu defnyddio'n briodol

Nid yw'r Llywodraeth am i unrhyw hawlydd gael ei gosbi, y nod yw sicrhau bod hawlwyr yn cydymffurfio â'r gofynion a fydd yn eu helpu i mewn i gyflogaeth. Fodd bynnag, os bydd hawlydd yn methu â bodloni gofyniad, yn fwriadol a heb reswm da, mae'n rhaid gosod sancsiwn arno. Cred y Llywodraeth fod hyn yn briodol ac fe'i hategir gan ddeddfwriaeth.

Mae amrywiaeth o fesurau diogelu ar waith er mwyn helpu i sicrhau mai dim ond pan fo'n briodol gwneud hynny y caiff sancsiynau eu defnyddio:

- Mae'n rhaid i ofynion fod yn rhesymol ac wedi'u cynllunio i helpu'r hawlydd i symud i mewn i waith a dylent adlewyrchu gallu ac amgylchiadau penodol yr hawlydd.
- Ni ddylid gosod unrhyw sancsiwn ar yr hawlydd pan fydd ganddo reswm da.

- Un o wneuthurwyr penderfyniadau annibynnol yr Adran Gwaith a Phensiynau, nid ymgynghorydd yr hawlydd, sy'n ystyried a oedd gan yr hawlydd reswm da ai peidio ac yn penderfynu a ddylid gosod sancsiwn arno.
- Mae gan hawlwyr yr hawl i ofyn am i benderfyniad i osod sancsiwn gael ei ailystyried ac apelio i dribiwnlys annibynnol.

Gall hawlwyr hefyd wneud cais am daliadau caledi os ydynt yn wynebu caledi o ganlyniad i sancsiwn. Mae taliadau caledi yn adfer taliadau ar 60 y cant o lefel taliadau arferol JSA. Gall pob hawlydd wneud cais ar unwaith am daliadau caledi. Os byddant yn gymwys i'w cael, gall hawlwyr yr ystyrir eu bod yn agored i niwed, gan gynnwys unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn, gael taliadau ar unwaith. Mae'n rhaid i hawlwyr eraill aros 14 diwrnod i daliadau ddechrau. Ni ddylai un o sancsiynau JSA effeithio ar fudd-daliadau eraill, megis Budd-dal Tai.

Cred y Llywodraeth fod y mwyafrif llethol o benderfyniadau i osod sancsiynau mewn perthynas â JSA yn gywir ac mae wedi dilyn proses sy'n adlewyrchu'r mesurau diogelu hyn. Yn 2013 ystyriodd ein gwneuthurwyr penderfyniadau bron ddwy filiwn o achosion a arweiniodd at 871,000 o sancsiynau neu benderfyniadau i wrthod talu JSA. Dim ond tua 13 y cant o'r penderfyniadau a newidiwyd ar ôl iddynt gael eu hailystyried neu ar apêl, ac yn aml roedd hyn i'w briodoli i'r ffaith bod yr hawlydd wedi cyflwyno tystiolaeth newydd.

Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i barhau i wella'r system hon, yn benodol er mwyn sicrhau y caiff mesurau diogelu eu defnyddio fel y bwriadwyd. Bydd y Llywodraeth hefyd yn adolygu effeithiolrwydd y polisi yn barhaus, gan ddefnyddio gwerthusiadau wedi'u cynllunio i sicrhau ei bod yn parhau i gyflawni'r canlyniadau bwriadedig.

## 4. Gwelliant parhaus – adolygiad Oakley

Mae 'adolygiad Oakley' yn gwneud cyfraniad pwysig at y gwaith hwn sy'n dal i fynd rhagddo.

Sefydlwyd yr adolygiad fel yr oedd yn ofynnol gan Ddeddf Ceiswyr Gwaith 2013, gyda chylch gorchwyl penodol i gyflwyno adroddiad ar weithrediad y system sancsiynau am fethiannau i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth gorfodol. Penodwyd Matthew Oakley i arwain yr adolygiad gan y Gweinidog dros Gyflogaeth ym mis Medi 2013. Mae ei adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion: ar gyfathrebu; prosesau (yn arbennig mewn perthynas â chasglu rheswm da); ac ar weithio'n agosach gyda'n partneriaid, yn enwedig darparwyr y Rhaglen Waith.

Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r argymhellion hyn, gan gydnabod y byddant yn helpu i wella gweithrediad ein system a, lle bynnag y bo'n bosibl, ac yn amodol ar gynnal astudiaeth ddichonoldeb fanwl a sicrhau'r adnoddau angenrheidiol, mae wedi'u derbyn. Mae'r adran nesaf yn crynhoi pob un o'r argymhellion yn adolygiad Oakley ac yn nodi ymateb y Llywodraeth. Pan fydd ymateb wedi'i dderbyn, mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu'r argymhelliad, nid yn unig mewn perthynas â sancsiynau sy'n ymwneud â chynlluniau cyflogaeth gorfodol, ond hefyd mewn perthynas â'r system sancsiynau yn gyffredinol.

## 5. Gwelliant parhaus – newidiadau a wnaed ac a gynlluniwyd eisoes

Bydd adolygiad Oakley yn ychwanegu at newidiadau y mae'r Llywodraeth eisoes wedi'u gwneud neu wedi dechrau eu gwneud er mwyn gwella gweithrediad y system sancsiynau. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi gwneud y canlynol:

- Cyflwyno'r dull Ymrwymiad Hawlydd (o fis Hydref 2013, gyda'r broses o'i gyflwyno yn cael ei chwblhau erbyn mis Ebrill 2014) i JSA, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar rôl yr ymgynghorydd ac wedi gwella dealltwriaeth hawlwyr o'r gofynion a osodir arnynt. Mae'r Ymrwymiad Hawlydd wrth wraidd dull personoledig newydd o chwilio am swydd, sy'n seiliedig ar drafodaeth weithredol rhwng ymgynghorwyr a'r hawlydd fel y gall hawlwyr lunio eu cynllun gweithredu manwl eu hunain, sydd wedi'i deilwra iddynt ac sy'n cael ei berchenogi ganddynt. Mae'r Ymrwymiad Hawlydd yn nodi camau pendant i'w cymryd gan geiswyr gwaith wrth chwilio am waith fel eu bod yn gliriach ynghylch disgwyliadau, pa dystiolaeth y dylent fod yn ei chofnodi a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn dangos cydymffurfiaeth.
- Dechreuwyd datblygu proses newydd lle mae ymgynghorwyr yn nodi amheuaeth ynghylch a yw hawlydd wedi bod wrthi'n chwilio am waith. Bydd hyn yn newid y system hirsefydlog lle y caiff budd-daliadau eu hatal heb benderfyniad gan wneuthurwr penderfyniadau. Yn lle hynny, byddwn yn sicrhau y caiff penderfyniad ei wneud cyn y caiff budd-daliadau eu hatal. Disgwyliwn i hyn ddod i rym o fis Gorffennaf 2014.
- Cyflwynwyd (o fis Hydref 2013) wiriad sicrhau ansawdd ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniadau ynghylch sancsiynau, er mwyn gwella safonau a sicrhau mwy o gysondeb o ran gwneud penderfyniadau. O dan y system hon mae gwiriadau yn cael eu cynnal ar gyfran o benderfyniadau pob gwneuthurwr penderfyniadau.
- Cyflwynwyd (ym mis Hydref 2012) linell ffôn (Provider Direct) i alluogi darparwyr i gadarnhau a fyddai atgyfeiriad sancsiwn yn briodol cyn atgyfeirio hawlydd, er enghraifft, cadarnhau bod yr hawlydd yn dal i gael budd-daliadau.
- Diwygiwyd trefniadaeth gwneuthurwyr penderfyniadau ynghylch sancsiynau (o fis Ionawr 2014), fel bod timau gwneud penderfyniadau penodol yn gweithio gyda Chanolfannau Gwaith neu ddarparwyr penodol. Nod hyn yw sicrhau eu bod yn gweithio'n agosach, yn arbennig er mwyn trafod amrywiadau o ran ansawdd atgyfeiriadau neu benderfyniadau a mynd i'r afael â hwy.
- Cyflwynwyd fframwaith sicrhau ansawdd a rhestr wirio i gynghorwyr sy'n gwneud atgyfeiriadau i wneuthurwyr penderfyniadau (yn effeithiol o ddiwedd mis Ebrill 2014). Nod hyn yw sicrhau bod ymgynghorwyr yn casglu'r dystiolaeth gywir gan hawlwyr ac yn gwneud atgyfeiriadau priodol – gan helpu i sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau yn fwy effeithlon a chyson.
- Sefydlu uned gyfathrebu newydd ac adolygiad o'r holl ohebiaeth â'n hawlwyr er mwyn sicrhau ein bod yn cynhyrchu llythyrau safonol clir, gan ddefnyddio gwaith ymchwil o safon uchel ac arfer gorau. Bydd y timau hyn yn gweithredu ar argymhellion Matthew Oakley ar gyfer gwneud gwelliannau i'n llythyrau a dulliau eraill o gyfathrebu.

ISBN 978-1-78425-299-1

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Gorffennaf 2014

**www.dwp.gov.uk/cymraeg**